# Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych 2021/22 – 2029/30

| | |
|---|---|
| **Disgrifiad:** | Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth i chi am nodau Di-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol y Cyngor a'r tasgau y byddwn yn ceisio eu cyflawni er mwyn gwireddu'r nodau a osodwyd ar gyfer 2030. |
| **Crëwyd gan:** | Helen Vaughan-Evans (HVE) |
| **Dyddiad creu:** | Chwefror 2021 |
| **Yn cael ei gynnal gan:** | Helen Vaughan-Evans (HVE) |

Fersiwn Derfynol - Chwefror 2020
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

## Fersiwn

| Fersiwn | Dyddiad addasu | Addaswyd gan | Addasiadau a wnaed | Statws |
|---|---|---|---|---|
| Fersiwn Terfynol, Chwefror 2021 | Amh. | Amh. | Amh. | Terfynol ac wedi'i gyhoeddi |
| Fersiwn Terfynol wedi'i ddiwygio, Awst 2021 | 2 Awst 2021 | HVE | **Tudalen 5**: diweddariad i dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru (Di-garbon Net erbyn 2050)<br>**Tudalen 6**: uwch Unigolyn â Chyfrifoldeb am y Rhaglen wedi newid o Judith Greenhalgh i Alan Smith<br>**Tudalen 12**: nid yw gwastraff a gesglir oddi ar ymyl y palmant gan y Cyngor bellach wedi'i gynnwys yn y cwmpas di-garbon net yn unol ag arweiniad terfynol Llywodraeth Cymru ar y Drefn Adrodd ar Nwyon Tŷ Gwydr ar gyfer y Sector Cyhoeddus<br>**Tudalen 13**: ffigyrau carbon wedi'u diweddaru yn dilyn cywiriad i'r cwmpas<br>**Tudalen 14 & 15**: tabl data 1 a siart 1 wedi eu diweddaru ar ôl cywiriad i'r cwmpas.<br>**Tudalen 17**: tabl data 3 wedi'i ddiweddaru ar ôl cywiriad i'r cwmpas.<br>**Tudalen 21**: siart 3 wedi'i ddiweddaru ar ôl cywiriad i'r cwmpas. | Terfynol ac wedi'i gyhoeddi |

| **Fersiwn** | **Dyddiad addasu** | **Addaswyd gan** | **Addasiadau a wnaed** | **Statws** |
|---|---|---|---|---|
| Fersiwn Terfynol 2, Ionawr 2022 | Ionawr 2022 | HVE | **Tudalen 16 & 20:** tabl data 3 a siart 3 wedi'u diweddaru ar ôl dysgu o berfformiad 2020/21 yn ystod Pandemig Covid.<br><br>**Tudalen 18 & 20:** tabl data 4 a siart 4 wedi'u diweddaru ar ôl dysgu o berfformiad 2020/21 yn ystod Pandemig Covid.<br><br>**Tudalen 46:** geiriad a wnaed yn gliriach ar gyfanswm y costau amcangyfrifedig hyd at 2030. | Terfynol ac wedi'i gyhoeddi |
| Fersiwn Terfynol 3, Ebrill 2023 | 12 Ebrill 2023 | HVE | **Tudalen 7:** Aelod Arweiniol a Swyddog Arweiniol wedi'u diweddaru | Terfynol ac wedi'i gyhoeddi |

## Beth yw'r ddogfen hon?

Ym mis Gorffennaf 2019 datganodd Cyngor Sir Ddinbych Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol.

Mewn ymateb, ac erbyn 31ain Mawrth 2030, nod y Cyngor yw dod yn:

- Gyngor di-garbon net
- Gyngor ecolegol-gadarnhaol

Mae'r ddogfen hon yn esbonio rhagor am y ddau nod hyn a'r tasgau rydym am geisio eu cyflawni i gyrraedd ein targed erbyn 2030.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd, a gall fod ar gael mewn fformatau eraill os gofynnir amdanynt.

I gael gwybod mwy am unrhyw beth yn y llyfryn hwn, cysylltwch â'r Tîm Newid Hinsawdd:

**E-bost**: newidhinsawdd@sirddinbych.gov.uk

**Ffôn**: 01824 706000 (dydd Llun i ddydd Gwener, 8:30am-5pm).

**Ysgrifennwch atom**: Y Tîm Newid Hinsawdd, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ.

# Cynnwys


Croeso i Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych 6

Newid yn yr hinsawdd a dirywiad natur 7

Sut mae'r Strategaeth hon wedi cael ei datblygu 9

Strategaethau eraill y Cyngor 11

Cyngor Di-garbon Net erbyn 2030 12

Beth yw ein nod? 12

Di-garbon Net 12

Cadwyn Gyflenwi 13

Beth yw ein man cychwyn? 13

Di-garbon Net 13

Siart 1: Ôl Troed Di-garbon Net Cyngor Sir Ddinbych 2019/20 15

Siart 2: Amsugniad Carbon Cyngor Sir Ddinbych 2019/20 16

Cadwyn Gyflenwi 16

Ble rydym eisiau ei gyrraedd? 17

Di-garbon Net 17

Siart 3: Swm y carbon a allyrrwyd gan y Cyngor yn 2019/20 o'i gymharu â'r allyriadau arfaethedig ar gyfer 2029/30 21

Siart 4: Swm y carbon a amsugnwyd gan y Cyngor yn 2019/20 o'i gymharu â'r amsugniad a ragwelir yn 2029/30 21

Cadwyn Gyflenwi 22

Pa newidiadau a chamau fydd yn ein helpu ni i gyrraedd ein nod? 24

Newidiadau i brosesau a pholisïau'r Cyngor 24

Camau gweithredu a phrosiectau 27

Cyngor sy'n Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030 33

Beth yw ein nod? 33

Beth yw ein man cychwyn? 33

Ble rydym eisiau ei gyrraedd? 39

Pa newidiadau a chamau fydd yn ein helpu ni i gyrraedd ein nod? 42

Newidiadau i brosesau a pholisïau'r Cyngor 42

Camau gweithredu a phrosiectau 44

Strategaeth ariannol i gynnal y strategaeth a'r cynllun gweithredu 48

Sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro 50

Sut byddwn yn rhannu'r hyn rydym yn ei ddysgu 52

## Croeso i Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych

Newid hinsawdd a newid ecolegol yw'r her fyd-eang sy'n diffinio ein hoes. Mae'n effeithio ar bopeth sy'n byw ar ein planed, gan eich cynnwys chi a fi. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein nodau i fod yn Gyngor di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol ynghyd â'r newidiadau a'r camau gweithredu rydym wedi eu nodi hyd yma, ac y byddwn yn ceisio ein gorau i'w cyflawni rhwng rŵan a 2030.

Trwy weithio i gyflawni'r nodau hyn, rydym yn gobeithio y gall Cyngor Sir Ddinbych wneud ei gyfraniad i fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd ac ecolegol rydym oll yn ei wynebu. Trwy weithio i gyflawni'r nodau hyn rydym yn gobeithio gwneud ein cyfraniad i ostwng allyriadau carbon ac i fod yn ddi-garbon net yng Nghymru erbyn 2050 a chyflawni ein dyletswydd statudol fel awdurdod lleol i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau fel yr amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Trwy weithio i gyflawni'r nodau rydym yn gobeithio gwneud ein cyfraniad i weld y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn cyrraedd ei darged o fod yn ddi-garbon net erbyn 2030 fel yr amlinellir yng nghynllun cyflawni Llywodraeth Cymru Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel.

Rydym yn falch iawn o fod yn un o'r Cynghorau cyntaf yng Nghymru i roi mynd i'r afael â newid hinsawdd ac ecolegol yn egwyddor sylfaenol yn ei broses benderfyniadau, gan newid ein Cyfansoddiad yn swyddogol ym mis Hydref 2020 – y set o reolau ac egwyddorion mae'r Cyngor yn ei ddilyn yn swyddogol wrth gyflawni ei waith. Rydym hefyd yn ceisio adeiladu ar ein henw da iawn am leihau carbon a gwella bioamrywiaeth, a gafodd eu cyflawni'n fwyaf diweddar o dan ein blaenoriaeth ar gyfer yr Amgylchedd yn y Cynllun Corfforaethol (2017-2022) .

Rydym wedi gwneud dechrau cadarnhaol ac rydym yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda'n cymunedau, staff, partneriaid a noddwyr i barhau yn ein hymdrechion ar y cyd i sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol.





**Y Cynghorydd Barry Mellor**

(Aelod Arweiniol dros yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth)

**Gary Williams**

(Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes)

## Newid yn yr hinsawdd a dirywiad natur

Fel mae faint o garbon deuocsid (CO2e[1]) mae cymdeithas wedi'i ollwng i atmosffer y ddaear wedi cynyddu mae tymheredd wedi cynyddu'n fyd-eang hefyd. Heb leihau allyriadau CO2e bydd y ddaear yn cynhesu mwy a mwy. Mae'r cynnydd hwn mewn tymheredd byd-eang yn achosi i'n hinsawdd a'n planed newid.

Mae'r newidiadau i'n hinsawdd yn cynnwys: hafau poethach a sychach, gaeafau cynhesach a gwlypach, cyfnodau o dywydd eithafol a lefelau'r môr yn codi. Mae hyn yn achosi, mwy o sychder a thanau gwyllt, stormydd cryfach, mwy o gyfnodau o dywydd poeth, llifogydd, difrod i gwrel, llai o eira a rhew, rhew parhaol yn toddi, newidiadau i gylch bywyd planhigion a newidiadau i gylch bywyd ac ymfudo anifeiliaid.

Ar yr un pryd, mae natur yn dirywio ac mae cred bod dirywiad o 68% yn niferoedd bywyd gwyllt y byd rhwng 1970 a 2020. Mae gweithgarwch pobl yn lleihau ansawdd a faint o gynefin sydd ar gael i fywyd gwyllt ac mae cynefinoedd yn mynd yn fwyfwy tameidiog, sy'n cyfyngu ar allu rhywogaethau i ymfudo i aros yn y cynefin maent ei angen i fyw. Wrth i dymheredd barhau i gynyddu, a maint a chysylltedd cynefinoedd barhau i ddirywio, bydd newid hinsawdd yn arwain fwyfwy at golli rhywogaethau.

Mae'r hinsawdd yn newid ym mhob man ar ein planed, gan gynnwys yma yng Ngogledd Cymru. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhanbarth wedi gweld mwy o lifogydd a hynny'n amlach, gwres llethol a stormydd cryfach a mwy cyson. Mae 354 o rywogaethau sydd yng Nghymru mewn perygl o gael eu colli[2]. Mae niferoedd pathewod ar draws Prydain, er enghraifft, wedi gostwng 51% ers 2000[3], ac ym mhob un o'u hen gadarnleoedd ar hyd Sir Ddinbych.

Ar hyn o bryd, mae'r tymheredd byd-eang wedi cynyddu tua 1˚C ers lefelau cyn yr oes ddiwydiannol. Ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) adroddiad arbennig ar effeithiau cynnydd o 1.5˚C mewn tymheredd byd-eang. Fe wnaeth yr IPCC ddarganfod y byddai byd sydd 1.5˚C yn gynhesach yn

---

[1] Mae CO2e yn dalfyriad o "carbon dioxide equivalent" sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio gwahanol nwyon tŷ gwydr mewn uned gyffredin – carbon.
[2] Yn ôl adroddiad Sefyllfa Byd Natur (Cymru), 2016
[3] Yn ôl adroddiad The State of Britains Dormice, 2019

gweld llawer llai o effeithiau ar fyd natur a chymdeithas oherwydd yr hinsawdd na chynnydd o 2˚C. Roedd yr IPCC yn amcangyfrif y byddai allyriadau carbon y byd angen lleihau i net sero erbyn 2050 fan bellaf i sicrhau bod y cynnydd yn nhymheredd y byd yn aros o dan 1.5˚C ac y byddai angen cwblhau'r rhan fwyaf o'r camau i gyflawni'r targed hwn erbyn 2030.

Wrth sylweddoli bod amser yn prysur fynd heibio, mae argyfwng hinsawdd wedi cael ei ddatgan gan nifer o sefydliadau, gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych ym mis Gorffennaf 2019 a thros 300 o awdurdodau lleol eraill y DU. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd.

## Sut mae'r Strategaeth hon wedi cael ei datblygu

Fe wnaeth Cyngor Sir Ddinbych ddatgan Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol ym mis Gorffennaf 2019 gan ymrwymo'r Cyngor i fod yn ddi-garbon net erbyn 2030 a gwella bioamrywiaeth.

Cynhaliodd Cyngor Sir Ddinbych gyfnod ymgysylltu ym mis Ionawr a Chwefror 2020 yn gofyn am adborth y cyhoedd ar fwriad y Cyngor o fod yn ddi-garbon net ac yn ecolegol gadarnhaol, ac am unrhyw syniadau i'r Cyngor allu cyflawni'r nodau hyn erbyn 2030.

Gan adeiladu ar syniadau'r cyhoedd, gweithiodd Cyngor Sir Ddinbych gyda Chynghorwyr a Swyddogion ar draws y Cyngor yn ystod 2020 i ddatblygu Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol y Cyngor (2021/22 – 2029/30). Roedd hyn yn cynnwys cyfrifo ôl-troed carbon y Cyngor a bioamrywiaeth tir y Cyngor, gan ystyried ein llwybr tuag at 2030 drwy gynllunio senarios a chynnal gweithdai gyda'r holl feysydd gwasanaeth sy'n rhan o'r Cyngor i nodi a datblygu ymhellach unrhyw newidiadau y gallem eu cyflwyno a pha brosiectau y gallem eu cynnal er mwyn helpu'r Cyngor i gyflawni ei dargedau.

Cafodd y gwaith hwn ei arwain gan y grŵp tasg a gorffen Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol a sefydlwyd fel rhan o ddatganiad yr argyfwng. Roedd y grŵp yn cynnwys dau gynrychiolydd o bob plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Cyngor, gan gynnwys aelodau arweiniol y Cabinet sy'n ymdrin â newid hinsawdd a newid ecolegol.

Mae'r cyfrifiadau ar gyfer y waelodlin ac uchelgeisiau Di-garbon Net wedi dilyn y fethodoleg cyfrifo allyriadau carbon ac amsugno carbon yn nhrefn newydd Llywodraeth Cymru i adrodd am nwyon tŷ gwydr ar gyfer y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r cyfrifiadau ar gyfer y waelodlin ac uchelgeisiau Ecolegol Gadarnhaol wedi cael eu harwain gan fethodoleg sefydledig ar gyfer mesur gwerth bioamrywiaeth gan Ganolfan Ecoleg a Hydroleg NERC. Mae bioamrywiaeth yn eang, yn gymhleth ac yn rhyng-gysylltiedig ac felly arwydd yn unig yw unrhyw fesur o werth bioamrywiaeth.

Ym mis Tachwedd 2020 gofynnodd y Cyngor i'w staff a'r cyhoedd am eu hadborth ar y ddogfen ddrafft. Mae'r adborth hwn wedi helpu i siapio Strategaeth derfynol Newid

Hinsawdd ac Ecolegol y Cyngor (2021/22 – 2029/30) a gafodd ei chyflwyno gerbron Aelodau Etholedig Sir Ddinbych ym mis Chwefror 2021 i'w mabwysiadu.

## Strategaethau eraill y Cyngor

Mae gan y Cyngor nifer o strategaethau a meysydd gwaith eraill sy'n cefnogi'r Cyngor i fynd i'r afael â newid hinsawdd a newid ecolegol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynllun Corfforaethol
- Cynllun Rheoli Asedau Tai Cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych
- Strategaeth Leol Sir Ddinbych ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd
- Cynllun Rheoli Ansawdd Aer
- Strategaeth Coetir a Choed (yn cael ei datblygu ar hyn o bryd)
- Cynllun Cyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth
- Cynllun Datblygu Lleol
- Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol
- Strategaeth Fflyd
- Strategaeth Clefyd Coed Ynn (yn cael ei datblygu ar hyn o bryd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
- Strategaeth Rhandiroedd Sirol (yn cael ei datblygu ar hyn o bryd)
- Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- Strategaeth Rheoli Asedau 2017-2021
- Cynllun Teithio Llesol (2017-2021) Cyngor Sir Ddinbych

# Cyngor Di-garbon Net erbyn 2030

## Beth yw ein nod?

### Di-garbon Net

Ein nod yw bod cyfanswm y carbon sy'n cael ei allyrru gan y Cyngor yn cyfateb i gyfanswm y carbon sy'n cael ei amsugno gan diroedd[4] y mae'r Cyngor yn berchen arnynt ac yn eu gweithredu erbyn 31 Mawrth 2030. Dyma ein huchelgais di-garbon.

Bydd y ffynonellau canlynol o allyriadau'n cyfrif tuag at ein nod di-garbon a chyfeirir atynt ar y cyd fel Ôl-troed Di-garbon Net Cyngor Sir Ddinbych:

| | |
|---|---|
| **Adeiladau** | Byddwn yn lleihau allyriadau o'r trydan, nwy, LPG, olew, biomas a dŵr rydym yn eu defnyddio yn yr adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor[5]. |
| **Gwastraff** | Byddwn yn lleihau allyriadau o'r gwastraff a gynhyrchir gan y Cyngor. |
| **Fflyd** | Byddwn yn lleihau allyriadau o'r petrol a'r diesel rydym yn eu defnyddio i yrru'r cerbydau sy'n eiddo i'r Cyngor. |
| **Staff yn cymudo** | Byddwn yn lleihau allyriadau a gynhyrchir gan staff a chynghorwyr wrth iddynt deithio o'u cartref i'r gwaith. |
| **Goleuadau stryd** | Byddwn yn lleihau allyriadau o'r trydan a ddefnyddir gan bolion lampau ac arwyddion traffig sy'n eiddo i'r Cyngor. |
| **Teithio Busnes** | Byddwn yn lleihau allyriadau a gynhyrchir wrth i'n staff a chynghorwyr deithio wrth wneud eu gwaith. |

[4] Heb gynnwys tiroedd y mae'r Cyngor yn berchen arnynt ond mae'n eu rhentu i eraill.
[5] Mae adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor yn cyfeirio at adeiladau fel swyddfeydd, depos, ysgolion a chanolfannau hamdden sy'n eiddo i'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys Tai Cyngor.

Bydd y ffynonellau amsugno carbon canlynol yn cyfrif tuag at ein nod di-garbon:

| | |
|---|---|
| **Glaswelltiroedd** | Byddwn yn cynnal y glaswelltiroedd y mae'r Cyngor yn berchen arnynt ac yn eu gweithredu. |
| **Coedwigoedd / Coetiroedd** | Byddwn yn cynyddu cyfanswm y coedwigoedd a'r coetiroedd mae'r Cyngor yn berchen arnynt ac yn eu gweithredu. |

### Cadwyn Gyflenwi

Yn ogystal â hyn, ein nod yw gostwng canran y carbon sy'n cael ei allyrru gan gadwyn gyflenwi'r Cyngor 35%[6] erbyn 31 Mawrth 2030.

| | |
|---|---|
| **Cadwyn Gyflenwi** | Byddwn yn lleihau allyriadau o'r holl nwyddau a gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu prynu gan eraill. |

## Beth yw ein man cychwyn?

### Di-garbon Net

Cyfanswm y carbon a gafodd ei allyrru gan ôl-troed Di-garbon Net Cyngor Sir Ddinbych yn 2019/20 oedd 16,448 tCO2e[7].

Cyfanswm y carbon a gafodd ei amsugno gan diroedd a oedd yn eiddo i Gyngor Sir Ddinbych ac a oedd yn cael eu gweithredu ganddo yn 2019/20 oedd 2,418 tCO2e.

Felly, sefyllfa Di-garbon Net y Cyngor yn 2019/20 oedd +14,030[8] tCO2e.

---

[6] O'i gymharu â gwaelodlin 2019/20
[7] Mae tCO2e yn dalfyriad o "tonnes of carbon dioxide equivalent" ac mae'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio nwyon tŷ gwydr gwahanol mewn uned gyffredin – carbon.
[8] Caiff hwn ei gyfrifo drwy dynnu'r carbon a amsugnir o'r carbon a allyrrir, h.y. tynnu'r ffigur 2,418 o'r ffigur 16,448.


Nod Di-garbon Net y Cyngor yw bod y ffigur o 14,030 tCO2e yn cyrraedd sero erbyn 31 Mawrth 2030.

Mae’r tablau a’r graffiau isod yn disgrifio faint o garbon gafodd ei allyrru gan y Cyngor o bob ffynhonnell allyriadau a faint gafodd ei amsugno gan bob ffynhonnell amsugno yn 2019/20.

**Tabl 1: Allyriadau carbon fesul ffynhonnell**

| Ffynhonnell allyriadau carbon | Swm y carbon sy’n cael ei allyrru yn 2019/20 yn tCO2e | % o’r cyfanswm |
|---|---:|---:|
| Adeiladau | 10,151 | 62 |
| Fflyd | 2,693 | 16 |
| Staff yn Cymudo | 1,848 | 11 |
| Goleuadau Stryd | 788 | 5 |
| Teithio Busnes | 550 | 3 |
| Gwastraff | 418 | 3 |
| **Cyfanswm** | **16,448** | **100** |


**Siart 1: Ôl Troed Di-garbon Net Cyngor Sir Ddinbych 2019/20**




**Tabl 2: Amsugno carbon fesul ffynhonnell**

| Ffynhonnell amsugno carbon | Faint o garbon a amsugnwyd yn 2019/20 yn tCO2e | % o'r cyfanswm |
|---|---:|---:|
| Glaswelltiroedd | 1,564 | 65 |
| Coedwigoedd / Coetiroedd | 854 | 35 |
| **Cyfanswm** | **2,418** | **100** |

**Siart 2: Amsugniad Carbon Cyngor Sir Ddinbych 2019/20**




## Cadwyn Gyflenwi

Yn ogystal â hyn, fe wnaeth y Cyngor allyrru 22,710 tunnell o CO2e o'i gadwyn gyflenwi yn 2019/20.

## Ble rydym eisiau ei gyrraedd?

### Di-garbon Net

Er mwyn cyrraedd ein nod Di-garbon Net, mae angen i'r Cyngor leihau cyfanswm y carbon mae'n ei allyrru a chynyddu cyfanswm y carbon mae'n ei amsugno.

Mae'r tabl isod yn disgrifio faint o allyriadau carbon rydym yn anelu at eu lleihau ar gyfer pob ffynhonnell allyriadau erbyn 31 Mawrth 2030. Mae targedau at yr hyn rydym ni'n ei ddisgwyl erbyn Blwyddyn 3 (2023/24) a Blwyddyn 6 (2026/2027) yn y rhaglen 9 mlynedd isod. Bydd ymyrraeth uniongyrchol y Cyngor yn rhan ganolog o sicrhau'r gostyngiad mewn allyriadau carbon. Bydd ein hymdrechion yn cyfuno ag ymdrechion cenedlaethol i ddatgarboneiddio rhwydweithiau tanwydd ac ynni. Byddwn yn ymateb i gyfleoedd newydd a allai godi rhwng rŵan a 2030 a fydd yn ein galluogi i ostwng ein hallyriadau carbon ymhellach.[9]

**Tabl 3: Targed lleihau erbyn 2030 fesul ffynhonnell o allyriadau carbon**


| Ffynhonnell allyriadau carbon | % y targedau lleihau o'u cymharu â 2019/20 | Allyriadau amcanol yn 2029/30 (tCO2e) os cyrhaeddir y targed | Allyriadau amcanol ym Mlwyddyn 3 (2023/24) (tCO2e) | Allyriadau amcanol ym Mlwyddyn 6 (2026/27) (tCO2e) |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Adeiladau | 60 | 4,060 | 8,121 | 6,091 |
| Fflyd | 60 | 1,077 | 2,154 | 1,616 |
| Staff yn Cymudo | 20 | 1,478 | 1,725 | 1,602 |
| Goleuadau Stryd | 50 | 394 | 657 | 525 |
| Teithio Busnes | 80 | 110 | 403 | 257 |
| Gwastraff | 50 | 209 | 348 | 279 |
| **Cyfanswm** | **N/A** | **7,329** | **13,408** | **10,369** |

Mae cerdyn post o'r dyfodol wedi'i gynnwys fel ffordd o ddod â'r ffigyrau hyn yn fyw drwy adrodd stori, a rhoi enghreifftiau o sut gallai'r Cyngor gyflawni ei dargedau ar gyfer 2030.

[9] Er enghraifft, cyflwyno technoleg newydd sydd ar gael i bawb ac sy'n hawdd ei defnyddio, neu ddatblygiad mawr mewn dulliau cynhyrchu ynni.

**Cerdyn post 1: Lleihau allyriadau carbon**

**Annwyl Gyngor 2020, y Flwyddyn 2030 sydd yma! Am daith heriol ond gwerth chweil rydych chi wedi bod arni i fod yn Gyngor Di-garbon. Heb ddatgelu gormod, dyma rai o'r penawdau ynglŷn â sut rydych wedi lwyddo i leihau eich allyriadau carbon…**



Yn adeiladau'r Cyngor, mae'r defnydd o ynni ar gyfer gwres, unrhyw beth sy'n defnyddio trydan a'r defnydd o ddŵr wedi lleihau drwy sicrhau bod adeiladau'n aerglos a bod y systemau a'r offer sydd ynddynt yn effeithlon. Mae holl adeiladau newydd y Cyngor sy'n cael eu hadeiladu yn rhai carbon isel. Mae mwy o egni adnewyddadwy yn cael ei gynhyrchu ar y safle. Mae systemau gwresogi mwy o safleoedd wedi cael eu trosi i ddewisiadau carbon isel ac adnewyddadwy. Defnyddir dulliau casglu dŵr glaw yn fwy eang ar gyfer defnyddio dŵr yn adeiladau'r Cyngor.

Rydym wedi lleihau faint mae cerbydau Fflyd y Cyngor yn ei deithio drwy sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd fwy hygyrch ac effeithlon. Mae cynnydd mawr wedi bod yn nifer y cerbydau trydan sy'n eiddo i'r Cyngor ac mae pwyntiau gwefru cerbydau trydan wedi cael eu gosod yn nifer o adeiladau a meysydd parcio'r Cyngor. Rydym wedi treialu opsiynau allyriadau isel iawn ar gyfer ein cerbydau fflyd mawr, fel lorïau biniau a lorïau halen.

Mae ein cyfraddau ailgylchu wedi mynd o nerth i nerth ac mae llai o halogi gan fod gwastraff yn cael ei ddidoli gan ddefnyddwyr. Mae'r pwyslais ar atal gwastraff yn y Sir wedi arwain at ostyngiad yn nifer y tunelli o wastraff sy'n cael eu cynhyrchu a'u casglu gan y Cyngor wrth i ragor o eitemau, a fyddai wedi cael eu taflu yn y gorffennol, gael eu defnyddio a'u hailddefnyddio.

Mae cyfleoedd i weithio gartref ar gael yn rhwydd i staff sy'n gallu gwneud hynny ac mae swyddfeydd y Cyngor yn fwy effeithlon. Pan fydd staff yn mynd i'r swyddfa, mae'n nhw'n teithio i'r swyddfa sydd agosaf at eu cartref gan leihau milltiroedd teithio a chynyddu nifer y staff sy'n cerdded, seiclo (teithio llesol) neu'n mynd ar fws i'r gwaith. Mae teithio i gyfarfodydd yn anghyffredin iawn bellach gan mai cyfarfodydd rhithiol yw'r norm. Pan fydd swyddogion yn cyfarfod, maent yn aml yn gwneud hynny'n agosach at eu cartrefi ac nid o reidrwydd yn un o brif swyddfeydd y Cyngor. Gall y swyddogion hynny sy'n gorfod teithio er mwyn gwneud eu gwaith ddefnyddio cerbyd trydan.

Mae'r tabl isod yn disgrifio faint rydym am geisio cynyddu cyfanswm y carbon sy'n cael ei amsugno ar gyfer pob ffynhonnell amsugno carbon erbyn 31 Mawrth 2030. Mae targedau ar gyfer yr hyn rydym ni'n ei ddisgwyl erbyn Blwyddyn 3 (2023/24) a Blwyddyn 6 (2026/27) o'r rhaglen 9 mlynedd isod. Bydd ymyrraeth uniongyrchol y Cyngor yn ganolog i sicrhau'r cynnydd yng nghyfanswm y carbon sy'n cael ei amsugno, yn ogystal â gwella dealltwriaeth am gapasiti amsugno carbon rhai o'n tirweddau mwy sefydledig.

**Tabl 4: Cynyddu'r targed fesul ffynhonnell amsugno carbon**

| Ffynhonnell amsugno carbon | % y cynnydd i dargedau o'u cymharu â 2019/20 | Amsugniadau amcanol yn 2029/30 (tCO2e) os cyrhaedir y targed | Amsugniadau amcanol ym Mlwyddyn 3 (2023/24) (tCO2e) | Amsugniadau amcanol ym Mlwyddyn 6 (2026/27) (tCO2e) |
|---|---:|---:|---:|---:|
| **Glaswelltiroedd** | 0% | 1,564 | 1,564 | 1,564 |
| **Coedwigoedd / Coetiroedd** | 575% | 5,765 | 2,491 | 4,128 |
| **Cyfanswm** | **N/A** | **7,329** | **4,055** | **5,692** |

Mae cerdyn post o'r dyfodol wedi ei gynnwys fel ffordd o ddod â'r ffigyrau hyn yn fyw drwy adrodd stori, a rhoi enghreifftiau o sut gallai'r Cyngor gyflawni ei dargedau ar gyfer 2030.

**Cerdyn post 2: Cynyddu amsugno carbon**



**Annwyl Gyngor 2020, y Flwyddyn 2030 sydd yma! Am daith heriol ond gwerth chweil rydych wedi bod arni i fod yn Gyngor Di-garbon. Heb ddatgelu gormod, dyma rai o'r penawdau ynglŷn â sut rydych wedi llwyddo i gynyddu faint o garbon rydych yn ei amsugno…**

Mae'r Cyngor wedi cynnal faint o laswelltir mae'n berchen arno ble bynnag bo modd, gan ddiogelu'r budd a ddaw o ran amsugno carbon a chyflenwi prosiectau i wella cyfoeth y rhywogaethau sy'n byw yng nghynefinoedd ei laswelltir er budd bioamrywiaeth.


Mae'r Cyngor wedi gwneud ymdrech fawr i gynyddu faint o goedwigoedd a choetiroedd mae'n berchen arnynt ac yn eu gweithredu. Dros y 9 mlynedd mae'r Cyngor wedi trosi tir oedd yn eiddo iddo, a thir wedi'i brynu, yn suddfannau carbon a noddfeydd i fywyd gwyllt drwy blannu coed dethol yn ofalus, gan gynnwys elfennau o laswelltir sy'n gyfoethog o ran rhywogaethau.

Mae'r gweithgarwch hwn wedi arwain at fuddion ychwanegol i'r Cyngor a'i gymunedau lle bo'n bosibl, gan gynnwys plannu coed uwch ben dalgylchoedd afonydd i leihau'r perygl o lifogydd a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i agor yr ardaloedd hyn i'r cyhoedd at ddibenion hamdden, twristiaeth a gwella lles.


Os bydd y Cyngor yn llwyddo i gyrraedd y targedau a amlinellir yn y tablau uchod, yn 2029/30 bydd cyfanswm allyriadau carbon y Cyngor yn cyfateb i gyfanswm y carbon a gaiff ei amsugno gan y Cyngor. Bydd y Cyngor wedi cyflawni ei uchelgais i fod yn ddi-garbon net.

Mae'r graffiau isod yn dangos y newid ym mhob ffynhonnell allyriadau carbon ac ym mhob ffynhonnell amsugno carbon gan gymharu cyfanswm 2019/20 â'r cyfanswm yn 2029/30 os bydd y Cyngor yn llwyddo i gyrraedd ei dargedau.

**Siart 3: Swm y carbon a allyrrwyd gan y Cyngor yn 2019/20 o'i gymharu â'r allyriadau arfaethedig ar gyfer 2029/30**




**Siart 4: Swm y carbon a amsugnwyd gan y Cyngor yn 2019/20 o'i gymharu â'r amsugniad a ragwelir yn 2029/30**



## Cadwyn Gyflenwi


Mae’r Cyngor hefyd yn bwriadu gostwng faint o garbon a gaiff ei allyrru o’n cadwyn gyflenwi o 35%. Byddwn yn gweithio gyda’r cwmnïau a busnesau rydym yn prynu ein cynnyrch a’n gwasanaethau ganddynt i leihau dwysedd carbon yr hyn rydym yn ei brynu a sut rydym yn cyflenwi gwasanaethau a hefyd i gael y budd mwyaf posibl i’r gymuned leol o’r contractau hynny.

Mae’r tabl isod yn dangos faint rydym am geisio gostwng canran y carbon sy’n cael ei allyrru gan gadwyn gyflenwi’r Cyngor erbyn 31 Mawrth 2030. Mae targedau ar gyfer yr hyn rydym ni’n ei ddisgwyl erbyn Blwyddyn 3 (2023/24) a Blwyddyn 6 (2026/27) isod. Mae’r graff isod yn dangos y newid yng nghyfanswm allyriadau carbon ein cadwyn gyflenwi drwy gymharu cyfanswm yr allyriadau yn 2019/20 â chyfanswm yr allyriadau yn 2029/30 petai’r Cyngor yn llwyddo i gyrraedd ei darged.

**Tabl 5: Targed lleihau ar gyfer allyriadau carbon o'n cadwyn gyflenwi**


| Ffynhonnell allyriadau carbon | % y targedau lleihau o'u cymharu â 2019/20 | Allyriadau amcanol yn 2029/30 yn y tCO2e os caiff y targed ei gyflawni | Allyriadau amcanol ym Mlwyddyn 3 (2023/24) (tCO2e) | Allyriadau amcanol ym Mlwyddyn 6 (2026/27) (tCO2e) |
|---|---|---|---|---|
| **Cadwyn Gyflenwi** | 35% | 14,762 | 20,061 | 17,411 |

**Siart 5: Swm yr allyriadau carbon o gadwyni cyflenwi yn 2019/20 o'i gymharu â'r hyn a ragwelir ar gyfer 2029/30**




Mae cerdyn post o'r dyfodol wedi ei gynnwys fel ffordd o ddod â'r ffigyrau hyn yn fyw drwy adrodd stori, a rhoi enghreifftiau o sut gallai'r Cyngor gyflawni ei dargedau ar gyfer 2030.

**Cerdyn post 3: Gostwng allyriadau carbon y gadwyn gyflenwi**



**Annwyl Gyngor 2020, y Flwyddyn 2030 sydd yma! Heb ddatgelu gormod, dyma rai o'r penawdau ynglŷn â sut rydych chi wedi llwyddo i leihau allyriadau carbon eich cadwyn gyflenwi...**

Mae'r Cyngor wedi lleihau gwariant lle bo'n bosibl, yn benodol ar bapur, gan fod y Cyngor yn 2030 bellach yn gweithredu bron iawn yn ddi-bapur. Ar ôl cyflwyno dull costau gydol oes ar gyfer caffael ar ddechrau'r rhaglen, mae'r Cyngor wedi gweld newid i brynu eitemau o ansawdd uwch yn llai aml.

Rydym wedi gweld y diwydiant adeiladu yn dod yn llawer llai dwys o ran carbon wrth arwain at 2030, gyda chymorth y Sector Cyhoeddus yng Nghymru sydd wedi egluro wrth gyflenwyr ei bod yn bwysig cyflawni prosiectau adeiladu newydd yn garbon isel.

Afraid dweud ein bod yn chwilio am werth ychwanegol ar gyfer pob contract Cyngor sy'n werth dros £25,000. Gan weithio gyda'n cymunedau, gyda'n gilydd rydym wedi adnabod y budd amgylcheddol sy'n cael ei werthfawrogi fwyaf, gyda phrosiectau budd cymunedol yn cael eu cyflawni gan/gyda chyflenwyr er budd lleihau carbon, amsugno carbon a gwella bioamrywiaeth.

## Pa newidiadau a chamau fydd yn ein helpu ni i gyrraedd ein nod?

### Newidiadau i brosesau a pholisïau'r Cyngor

Er mwyn cyrraedd ein nod di-garbon net erbyn 2030, bydd yn ofynnol i'r Cyngor addasu'r ffordd mae'n mynd ati i gyflenwi'r amrywiaeth eang o waith a thasgau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, ein partneriaid a'n cymunedau.

Yn ystod haf 2020 cynhaliwyd gweithdai rhithiol gyda thimoedd rheoli pob maes gwasanaeth yn y Cyngor er mwyn dechrau ar y gwaith o nodi'r ffyrdd y gallem newid ein dull o wneud pethau i gyfrannu at leihau allyriadau carbon a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei amsugno. Roedd y gwaith hwn yn adeiladu ar syniadau a gafwyd gan y cyhoedd yn ystod y digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd a gynhaliwyd ar ddechrau 2020.

Cafodd dros 100 o awgrymiadau ar gyfer newidiadau i brosesau a pholisïau eu nodi a’n nod yw gweithredu cynifer o’r rhain â phosib’ dros y 9 mlynedd nesaf.

Mae’r rhestr isod yn amlygu rhai o’r newidiadau o ran blaenoriaethau prosesau a pholisïau’r Cyngor rydym yn gobeithio y gallwn eu cyflwyno rhwng Blwyddyn 1 a Blwyddyn 3 (2021/22 - 2023/24) yn y strategaeth hon er mwyn cefnogi’r Cyngor i gyrraedd ei darged di-garbon net erbyn 2030.

Mae hon yn rhestr hyblyg a newidiol; gall pethau eraill gael eu gweithredu nad ydynt wedi’u cynnwys isod, er mwyn ymateb i gyfleoedd newydd.

**1.** Trwy ymgysylltu a chyfathrebu, sicrhau bod amcanion sy'n seiliedig ar wasanaethau yn cyd-fynd â'r uchelgais corfforaethol i ddod yn ddi-garbon a lleihau allyriadau carbon y gadwyn gyflenwi.

**2.** Rhoi'r newid yng nghyfansoddiad y Cyngor ar waith er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd ac ecolegol, gan gynnwys newidiadau i dempledi achosion busnes a chyflwyno proses costau hyd oes.

**3.** Ar ôl ymgynghori â staff ac undebau, swydd-ddisgrifiad pob aelod o staff i gynnwys eu cyfrifoldeb mewn perthynas â newid hinsawdd ac ecolegol.

**4.** Cefnogi ffyrdd newydd o weithio ar gyfer staff y Cyngor, gan ddysgu o brofiad o weithredu yn ystod cyfyngiadau COVID-19, gan gynnwys gweithio gartref a chyfarfodydd busnes rhithiol.

**5.** Parhau i weithredu'r polisi cerbydau trydan yn gyntaf wrth brynu cerbydau newydd.

**6.** Symud ymlaen i'r graddau bod hynny'n bosibl a mor gyflym â phosib’ i fynd yn ddi-bapur e.e. bwndelu achosion yn electronig, llofnodi a selio contractau’n electronig, pecynnau papur electronig ar gyfer cyfarfodydd democrataidd.

**7.** Sicrhau bod lleihau carbon yn cael ystyriaeth briodol yn nogfennau caffael y Cyngor – polisi a strategaeth, templedi comisiynu, gwerthusiadau tendrau.

**8.** Nodi'r buddion cymunedol yng nghontractau'r Cyngor sy'n lleihau carbon ac yn cynyddu amsugno carbon.

**9.** Gweithio i safoni'r dull gweithredu Ailgylchu a Gwastraff ar draws yr holl ysgolion a safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor gan gynnwys darparu amrywiaeth eang o ddulliau ailgylchu.

**10.** Ystyried cyflwyno polisi dylunio ac adeiladu i safonau lleihau carbon/carbon isel, a'u defnyddio fel y safon i adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor (e.e. Passivhaus).

**11.** Sicrhau bod dewis adeiladu gwell eco-gyfeillgar bob amser yn cael ei gyflwyno mewn achosion busnes wrth benderfynu ar brosiectau cyfalaf mawr.

**12.** Sicrhau bod y Strategaeth Rheoli Asedau newydd o 2021 ymlaen yn cyd-fynd â'r uchelgais corfforaethol o fod yn ddi-garbon net a chyflwyno polisi newydd ar gyfer gwaredu a chaffael asedau sy'n cefnogi cadw a/neu brynu tir at ddibenion amsugno carbon a gwelliannau ecolegol.

**13.** Adolygu Polisi Safleoedd Diangen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif i gynnwys yr opsiwn i GSDd gadw'r safle ar gyfer ei drosi'n goetir/perllannau cymunedol.

**14.** Ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud gwell defnydd o dir ar draws y sir i gyflawni nifer o amcanion e.e. rheoli'r perygl o lifogydd yn naturiol drwy blannu coed, ac ati.

**15.** Sicrhau bod Polisïau Clefyd Coed Ynn ynghlwm â phlannu coed newydd yn cefnogi cynyddu'r stoc o goed brodorol.

**16.** Sicrhau bod y cynllun newydd, Cynllun Teithio Llesol 2021, sy'n mapio'r llwybtau presennol a chynlluniau i ddapraru llwybrau teithio llesol yn y sir yn y dyfodol, yn cyd-fynd ag uchelgais y Cyngor i fynd i'r afael â newid hinsawdd a newid ecolegol.

**17.** Hybu polisïau cynllunio presennol yn y Cynllun Datblygu Lleol 2006-2021 a Chanllawiau Cynllunio Atodol presennol y Cyngor sy'n cyfrannu at ddatblygu mewn ffordd amgylcheddol gyfrifol.

**18.** Darparu CDLl newydd sy'n datblygu'r blaenoriaethau lleol ar gyfer cynllunio defnydd tir o fewn y fframwaith polisi cenedlaethol. Bydd y CDLl newydd yn sicrhau bod blaenoriaethau lleol o ran newid hinsawdd a bioamrywiaeth yn cael eu hadlewyrchu mewn polisïau a phenderfyniadau cynllunio lleol.

**19.** Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl i fod yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth ynglŷn â sut mae cynllunio defnydd tir lleol yn cefnogi blaenoriaethau'r Cyngor o ran newid hinsawdd a bioamrywiaeth.

## Camau gweithredu a phrosiectau

Er mwyn cyrraedd y targed di-garbon net bydd angen i'r Cyngor adeiladu ar raglenni gwaith sydd eisoes wedi dechrau o dan Flaenoriaeth yr Amgylchedd yn ein Cynllun Corfforaethol, yn ogystal â chyflawni prosiectau a gwaith newydd.

Cafodd dros 90 o syniadau ar gyfer prosiectau lleihau carbon ac amsugno mwy o garbon eu nodi yn y gweithdai rhithiol a gynhaliwyd yn ystod haf 2020 i ddatblygu'r strategaeth hon a'n nod yw rhoi cynifer o'r rhain ar waith dros y 9 mlynedd nesaf, yn ogystal ag unrhyw gamau gweithredu eraill y gallem eu cymryd i ymateb i gyfleoedd newydd.

Mae'r rhestr isod yn cynnig trosolwg ar y camau gweithredu a'r prosiectau sy'n flaenoriaethau a nodwyd hyd yma, y mae'r Cyngor yn gobeithio gallu eu cyflawni er mwyn lleihau allyriadau carbon ac amsugno mwy o garbon. Er y gall y Cyngor fod yn fwy penodol ar gyfer Blynyddoedd 1-3, nid yw mor hawdd cynnwys manylion penodol ar gyfer Blynyddoedd 4 ymlaen oherwydd y cyd-destun ansicr a chymhleth mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol weithredu ynddo.

Bydd cyflawni'r holl brosiectau a'r camau gweithredu a nodwyd yn amodol ar sicrhau'r arian angenrheidiol.

### Camau i leihau allyriadau carbon y Cyngor o adeiladau a goleuadau stryd

#### Blynyddoedd 1 – 3 (2021/22 – 2023/24)

- Cwblhau ein prosiect Goleuadau Stryd LED 7 mlynedd.

- Adolygu a rhesymoli faint o adeiladau mae'r Cyngor yn berchen arnynt ac yn eu gweithredu.

**Blynyddoedd 1 – 9 (2021/22 – 2029/30)**

- Cyflawni gwaith i wella effeithlonrwydd ynni adeiladau presennol gan gynnwys mesurau i wella pa mor aerglos ydynt (e.e. inswleiddio atigau, waliau ceudod), defnyddio llai o drydan (e.e. goleuadau LED, rheoli ynni) a gwella effeithlonrwydd systemau gwres (e.e. uwchraddio systemau rheoli gwres ac adeiladau).
- Dylunio ac adeiladu adeiladau newydd y Cyngor i fod yn garbon isel gan gynnwys integreiddio technoleg ynni a gwres adnewyddadwy yn ogystal â dulliau o gasglu dŵr glaw (e.e. Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B).
- Defnyddio cynlluniau ynni adnewyddadwy ar gyfer trydan gan gynnwys gweithio gydag ysgolion i gyflwyno ceisiadau ariannu i gronfeydd ffermydd gwynt i osod ynni adnewyddadwy (e.e. tyrbinau gwynt a phaneli ffotofoltäig) a gosod pyrth ceir solar ym meysydd parcio swyddfeydd y Cyngor.
- Trosi systemau gwresogi yn adeiladau presennol y Cyngor yn rhai gwres adnewyddadwy (e.e. pympiau gwres o'r aer, pympiau gwres o'r ddaear).
- Gwneud gwaith sylweddol i adnewyddu adeiladau presennol y Cyngor fel eu bod yn gweithredu fel rhai carbon isel (e.e. Prosiect gwneud Neuadd y Sir yn fwy 'Gwyrdd')
- Defnyddio technolegau casglu dŵr glaw ar draws ystâd y Cyngor yn enwedig mewn depos lle gwneir llawer o ddefnydd o ddŵr.

**Camau gweithredu i leihau allyriadau carbon y Cyngor o'r fflyd, staff yn cymudo a theithiau busnes**

**Blynyddoedd 1 – 3 (2021/22 – 2023/24)**

- Gosod seilwaith gwefru cerbydau trydan yn y 9 maes parcio sy'n eiddo i'r Cyngor.
- Cyflwyno ceir trydan y gellir eu harchebu i'r gronfa geir yn swyddfeydd y Cyngor.
- Trosi 3 o'n cerbydau gwastraff yn gerbydau trydan.
- Cyflwyno datrysiad i wefru cerbydau yn y cartref i staff sy'n dechrau ac yn gorffen eu diwrnod yn eu cartref ond sy'n defnyddio cerbyd fflyd sy'n eiddo i'r Cyngor.

**Blynyddoedd  1 – 6 (2021/22 – 2026/27)**

- Trosi pob un o'r cerbydau masnachol ysgafn sy'n eiddo i'r Cyngor (hyd at 3.5 tunnell) yn Gerbydau Trydan.
- Gosod seilwaith gwefru cerbydau trydan yn adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys swyddfeydd, depos, llyfrgelloedd, ac atyniadau twristaidd.

**Blynyddoedd  1 – 9 (2021/22 – 2029/30)**

- Ymestyn mannau gwefru cyhoeddus ar draws Sir Ddinbych a fydd hefyd yn addas ar gyfer cerbydau trydan Fflyd y Cyngor.
- Hwyluso platfform rhannu ceir i staff.

**Blynyddoedd  4 – 9 (2024/25 – 2029/30)**

- Trosi'r rhan fwyaf o gerbydau mwy sy'n eiddo i'r Cyngor i ddewisiadau allyriadau isel iawn.
- Treialu cerbydau mawr sy'n cael eu gyrru gan hydrogen (e.e. lorïau biniau).

**Camau gweithredu i leihau carbon y Cyngor o wastraff**

**Blynyddoedd  1 – 3 (2021/22 – 2023/24)**

- Ail-lansio ailgylchu yn adeiladau dinesig a gosod biniau newydd yn safleoedd y Cyngor fel bod gwastraff ailgylchu yn cael ei ddidoli yn y fan a'r lle.
- Gweithio gyda'r trydydd sector i gyflwyno lle yng Nghanolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn y Rhyl a Rhuthun i gefnogi gwaith ailddefnyddio a thrwsio i atal eitemau rhag mynd yn wastraff.
- Cwblhau'r Orsaf Drosglwyddo Gwastraff newydd fel bod modd didoli rhagor o ddefnyddiau y gellir eu hailgylchu.
- Gweithio i leihau plastig mewn ysgolion ac yn swyddfeydd y Cyngor.

**Blynyddoedd  1 – 6 (2021/22 – 2026/27)**

- Cefnogi Llywodraeth Cymru i ddarparu cyfleuster newydd i ailgylchu clytiau yn Sir Ddinbych, gan ddargyfeirio cynnyrch hylendid amsugnol o'r gwastraff gweddilliol ac i'r cyfleuster ailgylchu o bob rhan o Ogledd-orllewin Cymru.

**Blynyddoedd 1 – 9 (2021/22 – 2029/30)**

- Cyflawni prosiect gwella ar gyfer cynyddu faint o dunelli o wastraff sy'n cael eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu sy'n cael eu cynhyrchu yn sgil darparu'r gwahanol swyddogaethau gwasanaeth Priffyrdd a Stryd rheng-flaen

**Camau gweithredu i leihau carbon y Cyngor o'r nwyddau a'r gwasanaethau rydym yn eu prynu**

**Blynyddoedd 1 – 3 (2021/22 – 2023/24)**

- Creu banc o gwestiynau yn ymwneud yn benodol â charbon y gellid eu defnyddio fel rhan o'r broses gwerthuso tendrau. Dylai'r rhain gael eu sgorio a'u pwysoli yn briodol fel rhan o'r broses asesu ansawdd tendrau.
- Creu porth ar-lein i gofnodi ac adrodd ar fudd cymunedol contractau gan gynnwys mesurau yn gysylltiedig â'r agenda hwn.

**Blynyddoedd 1 – 9 (2021/22 – 2029/30)**

- Adnabod swyddogion y Cyngor sy'n caffael yn rheolaidd i dargedu cyfathrebu a hyfforddiant yn gysylltiedig â'r rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol a'r cyfraniad y gall caffael amgylcheddol gyfrifol ei wneud.
- Ailedrych ar gontractau rhanbarthol wrth iddynt ddod i ben gyda'r nod o leihau carbon, lle bo'n bosibl, yn y dyfodol.
- Mynd ar ôl grantiau wedi'u personoli ar gyfer gofal ac ysgogi gwaith microfenter – gan olygu bod modd prynu gofal wedi'i bersonoli gan ddarparwyr sy'n lleol iawn i'r dinesydd i leihau'r ôl-troed carbon.
- Gweithio gyda busnesau a chyflenwyr yn Sir Ddinbych i annog arferion carbon is.

**Camau gweithredu i gynyddu faint o garbon mae'r Cyngor yn ei amsugno**

**Blynyddoedd 1 – 3 (2021/22 – 2023/24)**

- Cwblhau'r Prosiect PLANNU – plannu 18,000 o goed mewn ardaloedd trefol.
- Sefydlu Meithrinfa Goed i'r Sir, yn tyfu 5,000 o goed y flwyddyn ar gyfer prosiectau plannu ar draws y Sir.
- Gweithio gydag ysgolion i nodi cyfleoedd plannu ar diroedd ysgolion.

**Blynyddoedd 1 – 9 (2021/22 – 2029/30)**

- Trosi tir newydd a brynwyd gan y Cyngor at ddiben dal a storio carbon a bioamrywiaeth drwy'r broses o adfywio naturiol a phlannu coed mewn ffordd wedi'i thargedu, gan alluogi'r cyhoedd i gael mynediad lle bynnag y bo'n bosibl.

**Defnyddio ein dylanwad ar draws Sir Ddinbych**

**Blynyddoedd 1 – 3 (2021/22 – 2023/24)**

- Yr holl gynghorwyr a rheolwyr i gwblhau hyfforddiant Llythrennedd Carbon a chreu modiwl e-ddysgu ar themâu llythrennedd carbon i'r holl staff.
- Datblygu'r CDLl newydd i sicrhau bod y blaenoriaethau lleol newydd o ran newid hinsawdd a bioamrywiaeth wedi'u hadlewyrchu mewn polisïau cynllunio lleol a phenderfyniadau.
- Cefnogi Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru i ddatblygu a chyhoeddi Cynllun Cludiant rhanbarthol newydd ac annog ei fod yn cyd-fynd ag agenda newid hinsawdd a newid ecolegol Sir Ddinbych.
- Parhau i gefnogi aelwydydd yn Sir Ddinbych sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi tanwydd a'r rhai sy'n agored i niwed effeithiau cartref oer trwy hyrwyddo cynllun tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru a gweithredu meini prawf Sir Ddinbych i gael cyllid Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni.

**Blynyddoedd 1 – 6 (2021/22 – 2026/27)**

- Bydd darparu Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n deillio o'r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cefnogi'r agenda newid hinsawdd.
- Cefnogi datblyfu'r prosiect Ynni Lleol Doeth a'r prosiect Dadgarboneiddio Cludiant o fewn Rhaglen Ynni Carbon Isel BUEGC.
- Trwy ein rôl fel Aelodau o Fwrdd Cronfa Bensiynau Clwyd, annog y Gronfa i nodi newid hinsawdd fel risg ariannol, i fesur a deall pa mor ddibynnol yw ar garbon yn ei phortffolio fuddsoddi a gosod targedau lleihau carbon, ar ôl cytuno arnynt, sy'n gallu cael eu mesur ac sydd â therfynau amser.

**Blynyddoedd 1 – 9 (2021/22 – 2029/30)**

- Rhoi rhaglen o fentrau ar waith i godi ymwybyddiaeth staff am eu rôl i leihau ein hallyriadau carbon, a sicrhau bod mesurau yn cael eu rhoi yn eu lle i ysgogi'r newid ymddygiad angenrheidiol.
- Rhoi rhaglen o fentrau a gwaith ymgysylltu ar waith gydag ysgolion ar draws y Sir i rannu dysgu ac adnoddau ar yr agenda hwn ac annog newid ymddygiad cadarnhaol.
- Cyflwyno rhaglen o fentrau, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, i godi ymwybyddiaeth ymysg trigolion a busnesau yn Sir Ddinbych o'r rôl y gallent hwy ei chwarae i leihau allyriadau carbon.
- Ymgysylltu â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned ynglŷn â lleihau carbon ac amsugno mwy o garbon trwy adolygu a diweddaru Siarter Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.
- Gweithio gyda thirfeddianwyr yn Sir Ddinbych, gan gynnwys tenantiaid ffermydd y Cyngor, i'w hannog i reoli a defnyddio'r tir er budd amsugno carbon (e.e. arweiniad i warchod ac adfer tir mawn).
- Lle bo hynny'n berthnasol ac yn gyfreithlon, adolygu safonau o fewn cynlluniau trwyddedu a chaniatâd y Cyngor i adlewyrchu blaenoriaethau lleol y Cyngor i fynd i'r afael â newid hinsawdd a gwella bioamrywiaeth.

## Cyngor sy’n Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030

### Beth yw ein nod?

Ein nod yw gwarchod, rheoli ac adfer ein tir yn ogystal â chreu ardaloedd newydd ar gyfer natur fel bod ecosystemau[10] yn Sir Ddinbych yn amrywiol, wedi’u cysylltu, yn fawr o ran eu maint a’u graddfa, yn iach ac yn gallu addasu; felly, mae hyn nid yn unig yn cynnal bioamrywiaeth ond mae’n ei wella. Dyma ein nod fel Cyngor Ecolegol Gadarnhaol.

Byddwn yn achub ar bob cyfle i wneud gwaith Ecolegol Gadarnhaol a fydd yn cyfrannu at ein gofynion amsugno carbon yn ein nod i fod yn Gyngor di-garbon net ac fel arall.

### Beth yw ein man cychwyn?

Mae’r data sydd ar gael ar gyfer cyfoeth rhywogaethau ar draws Sir Ddinbych wedi cael ei fapio ar y tiroedd sy’n eiddo i’r Cyngor ac sy’n cael eu gweithredu ganddo i roi syniad i ni am ein man cychwyn ar gyfer gwerth bioamrywiaeth y Cyngor.


Mae bioamrywiaeth yn eang, yn gymhleth ac yn rhyng-gysylltiedig ac felly awgrymiadau yn unig yw unrhyw fesurau ar gyfer gwerth bioamrywiaeth.

Mae’r tabl isod yn rhoi gwybodaeth i chi am y mathau gwahanol o gynefinoedd sydd wedi’u cynnwys yn y mesur cyfoeth rhywogaethau hyn. Mae’r cynefin sy’n fwyaf cyfoethog o ran rhywogaethau wedi’i restru yn gyntaf, ac mae’r cynefin gyda’r nifer lleiaf o rywogaethau wedi’i restru yn olaf:

---

[10] Ecosystem yw’r holl blanhigion ac anifeiliaid sy’n byw gyda’i gilydd mewn ardal benodol a’r berthynas gymhleth sy’n bodoli rhyngddynt a’u hamgylchedd.

**Tabl 6: Gwahanol fathau o gynefinoedd**

| Enw'r cynefin | Sgôr cyfoeth rhywogaethau[11] | Llun enghreifftiol |
|---|---|---|
| Glaswelltir Calchaidd – wedi'i wella a'i wella'n rhannol | 43.02 |  |
| Coetir Llydanddail ac Yw - cynefinoedd cymysg, rhannol a rhannol fynyddig | 20.91 |  |

[11] Y sgôr hon yw cyfanswm cyfartalog rhywogaethau planhigion fesul llain 200m$^2$ sydd fel arfer yn bresennol mewn cynefin o'r fath. Mae dadansoddiad gwyddonol wedi dangos bod amrywiaeth y rhywogaethau o anifeiliaid yn cynyddu mewn ardaloedd o dir lle mae'r amrywiaeth fwyaf o blanhigion.

| Enw’r cynefin | Sgôr cyfoeth rhywogaethau[11] | Llun enghreifftiol |
|---|---|---|
| Glaswelltir niwtral – heb ei wella ac wedi ei wella’n rhannol | 20.44 |  |
| Glaswelltir asid – heb ei wella ac wedi ei wella’n rhannol | 19.58 |  |
| Rhedyn | 19.29 |  |

| Enw'r cynefin | Sgôr cyfoeth rhywogaethau[11] | Llun enghreifftiol |
|---|---|---|
| Creigiau mewndirol | 16.74 |  |
| Rhostiroedd â thyfiant isel | 15.87 |  |
| Planhigion cynefinol tal | 15.87 |  |


| Enw'r cynefin | Sgôr cyfoeth rhywogaethau[11] | Llun enghreifftiol |
|---|---|---|
| Glaswelltir wedi'i wella | 14.28 |  |
| Coetir conifferaidd | 14.05 |  |
| Tir âr a garddwriaethol | 10.25 |  |

Mae'r graff isod yn disgrifio faint o diroedd mae'r Cyngor yn berchen arnynt ac yn eu gweithredu ym mhob un o'r mathau o gynefinoedd sy'n amrywio o ran cyfoeth eu rhywogaethau.

Mae 62% o'r tir mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu yn y categorïau is o ran cyfoeth rhywogaethau.

Mae 38% o'r tir mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu yn y categorïau uchaf o ran cyfoeth rhywogaethau.

**Siart 6: Swm y tir y mae Cyngor Sir Ddinbych yn berchen arno ac yn ei weithredu ym mhob math o gynefin o amrywiol gyfoeth o rywogaethau**




Yn ogystal â hyn, mae nifer o gynefinoedd pwysig sy'n cynnal amrywiaeth eang o rywogaethau y mae'r Cyngor yn ddigon ffodus i fod yn berchen arnynt, ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn ein gwaelodlin o gyfoeth rhywogaethau oherwydd cyfyngiadau yng nghategorïau cynefinoedd y fethodoleg fesur. Mae'r rhain yn cynnwys afonydd, nentydd, a'r systemau twyni a graean pwysig ar arfordir Sir Ddinbych sy'n gartref i amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid prin ac arbenigol. Mae'r rhain yn cynnwys y nythfa olaf o Fôr-wenoliaid Bach (rhywogaeth o adar) yng Nghymru, ynghyd â Madfall y Tywod a Llyffant y Twyni a gafodd eu hailgyflwyno yma ar ôl mynd yn ddiflanedig yng Nghymru.

Mae'r Cyngor yn llunio adroddiad bob tair blynedd ar yr hyn rydym wedi ei wneud i gyflawni ein dyletswydd statudol i gydymffurfio â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i

gynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu cydnerthedd ecosystemau.[12] Lluniwyd yr adroddiad diwethaf yn 2019 ar gyfer y cyfnod 2016-19 ac mae'n rhoi manylion pellach o ran man cychwyn Ecolegol Gadarnhaol y Cyngor.[13]

## Ble rydym eisiau ei gyrraedd?

Er mwyn cyflawni ein nod i fod yn Ecolegol Gadarnhaol, mae angen i'r Cyngor gynyddu canran y tir rydym yn berchen arno ac yn ei weithredu sy'n fwyaf cyfoethog o ran rhywogaethau.

Gellir cyflawni hyn drwy adfer tiroedd a newid y ffordd rydym yn rheoli'r tiroedd rydym yn berchen arnynt ac yn eu gweithredu ar hyn o bryd, er mwyn cynyddu amrywiaeth y rhywogaethau, a thrwy gynyddu ar faint o dir rydym yn berchen arno gan greu ardaloedd newydd (rhai arbenigol yn ecolegol) ar gyfer natur.

Dylai canran y tir mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu sydd yn y categorïau isaf o ran cyfoeth rhywogaethau fod yn is na chanran y tir mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu sydd yn y categorïau uchaf o ran cyfoeth rhywogaethau er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei nod Ecolegol Gadarnhaol. Mae'r tabl isod yn disgrifio'r newid canrannol sy'n ddisgwyliedig erbyn 2030. Mae targedau o'r hyn rydym yn ei ddisgwyl erbyn Blwyddyn 3 (2023/23) a Blwyddyn 6 (2026/27) yn y rhaglen 9 mlynedd i'w gweld isod.

---

[12] Teitl llawn y ddyletswydd hon yw "Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau" ond cyfeirir ati'n aml fel dyletswydd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

[13] Gallwch ddarllen adroddiad Cyngor Sir Ddinbych (PDF) ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

**Tabl 7: Newid canran yn y cynefinoedd gyda'r cyfoeth uchaf ac isaf o rywogaethau**


| Categorïau cyfoeth rhywogaethau | Man Cychwyn | Nod erbyn 2030 | % disgwyliedig ym Mlwyddyn 3 (2023/24) | % disgwyliedig ym Mlwyddyn 6 (2026/27) |
|---|---|---|---|---|
| Categorïau isaf o ran cyfoeth rhywogaethau | 62% | Gostwng yn is na 49% neu is | Gostwng i 57.7% neu is | Gostwng i 53.3% neu is |
| Categorïau uchaf o ran cyfoeth rhywogaethau | 38% | Cynyddu dros 51% neu uwch | Cynyddu i 42.3% neu uwch | Cynyddu i 46.7% neu uwch |

Mae nifer o gynefinoedd pwysig nad ydynt wedi'u cynnwys yn ein gwaelodlin, oherwydd y fethodoleg fesur, sy'n cynnal amrywiaeth eang o rywogaethau y mae'r Cyngor yn ffodus i fod yn berchen arnynt. Dros y 9 mlynedd nesaf bydd y cyngor yn parhau i warchod, adfer a chynyddu maint y cynefinoedd hyn er mwyn gwarchod a gwella bioamrywiaeth.

Mae'r Cyngor yn rheoli ac yn berchen ar gynefinoedd penodol sydd o bwysigrwydd diwylliannol, hanesyddol ac/neu sy'n cael eu rheoli er mwyn cynnal a chadw rhywogaethau prin a gallwn ddewis parhau i'w rheoli mewn ffordd wedi'i thargedu. Mae'n bosibl bod y cynefinoedd hyn yn cynnal llai o amrywiaeth o rywogaethau na chynefinoedd eraill mwy cyffredin, ond mae'r cymunedau o blanhigion ac anifeiliaid maent yn eu cynnal yn aml yn brin ac yn arbenigol, ac nid ydynt i'w cael unrhyw le arall yn Sir Ddinbych. Un enghraifft o hyn yw'r Rhostir Grug, sy'n nodwedd bwysig yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Mae cerdyn post o'r dyfodol wedi'i gynnwys isod fel ffordd o ddod â'r ffigyrau hyn yn fyw drwy adrodd stori a rhoi enghreifftiau o sut gallai'r Cyngor gyflawni ei darged erbyn 2030.

**Cerdyn post 4: Positifrwydd Ecolegol**



**Annwyl Gyngor 2020. Y flwyddyn 2030 sydd yma! Heb ddatgelu gormod, dyma rai o'r penawdau ynglŷn â sut rydych chi wedi llwyddo i ddod yn ecolegol gadarnhaol…**

Erbyn hyn mae'n ail natur i swyddogion adolygu gwerth ac effaith bioamrywiaeth pob prosiect, ymyrraeth neu weithgaredd mae'r Cyngor yn ei gyflawni ac i wneud hynny mewn ffordd sy'n cael effaith gadarnhaol ar ecoleg. Cymerir pob cyfle i osgoi achosi niwed i fioamrywiaeth yng ngwaith y Cyngor ond os nad yw'n bosib' osgoi hynny, mae cynlluniau a chamau'n cael eu cymryd sy'n gadael bioamrywiaeth mewn gwell cyflwr na phan wnaethom ddechrau ar ein gwaith.

Trwy ymdrechion ar y cyd ar draws adrannau mae cynefinoedd glaswelltir wedi'u gwella (sy'n cynnal llai o gyfoeth o rywogaethau) wedi'u trosi'n laswelltir niwtral (sy'n cynnal mwy o gyfoeth o rywogaethau) gan wella bioamrywiaeth yn y sir. Cyflawnwyd hyn drwy gyflwyno newidiadau cynhwysfawr i'r trefniadau torri er mwyn caniatáu aildyfu naturiol yn ogystal â mynd ati'n fwriadol i hau hadau dolydd/blodau gwyllt.

Er mwyn sicrhau'r budd gorau, mae cyfanswm yr hectarau o goetiroedd llydanddail a chymysg sy'n eiddo i'r Cyngor wedi cynyddu. Dros y 9 mlynedd mae'r Cyngor wedi trosi tir sy'n isel o ran cyfoeth rhywogaethau, ac wedi prynu tir newydd, a'i droi yn suddfannau carbon a noddfeydd i fywyd gwyllt drwy blannu coed dethol yn ofalus gan gynnwys elfennau o laswelltir sy'n gyfoethog o ran rhywogaethau.

Mae'r Cyngor wedi gwneud ymdrech fwriadol i roi lle i fyd natur, gan fabwysiadu dull aildyfu naturiol, heb ymyrraeth fecanyddol, a datblygu safleoedd yn enghreifftiau ecolegol. Llwyddwyd i gyflawni nodau craidd y gwaith hwn, sef ailgysylltu pobl â natur, drwy gynnig cyfleoedd ar gyfer eu defnyddio at ddibenion hamdden ac mae'r gwaith wedi ysbrydoli cenhedlaeth o naturiaethwyr sy'n deall pwysigrwydd ein hamgylchedd naturiol, a sut i'w warchod. Mae myfyrwyr prifysgol yn ymweld er mwyn dysgu am y cyfoeth o fioamrywiaeth o'n hamgylch.

## Pa newidiadau a chamau fydd yn ein helpu ni i gyrraedd ein nod?

### Newidiadau i brosesau a pholisïau’r Cyngor

Er mwyn cyrraedd ein targed ecolegol gadarnhaol erbyn 2030 bydd angen i’r Cyngor addasu’r ffordd mae’n cyflawni’r amrywiaeth eang o waith a thasgau mae’n ofynnol i ni eu gwneud ar gyfer Llywodraeth Cymru, ein partneriaid a’n cymunedau.

Yn ystod haf 2020 cynhaliwyd gweithdai rhithiol gyda thimoedd rheoli pob maes gwasanaeth yn y Cyngor er mwyn dechrau ar y gwaith o nodi’r ffyrdd y gallem newid ein dull o wneud pethau i gyfrannu at warchod a gwella bioamrywiaeth. Roedd y gwaith hwn yn adeiladu ar syniadau a gafwyd gan y cyhoedd yn ystod y digwyddiad ymgysylltu â’r cyhoedd a gynhaliwyd ar ddechrau 2020.

Cafodd dros 25 o awgrymiadau ar gyfer newidiadau i brosesau a pholisïau eu hadnabod a’n nod yw gweithredu cynifer o’r rhain â phosibl dros y 9 mlynedd nesaf.

Mae’r diagram isod yn amlygu rhai o’r newidiadau o ran blaenoriaethau prosesau a pholisïau’r Cyngor rydym yn gobeithio y gallwn eu cyflwyno rhwng Blwyddyn 1 a Blwyddyn 3 (2021/22 - 2023/24) y strategaeth hon er mwyn cefnogi’r Cyngor i gyrraedd ei darged ecolegol erbyn 2030.

Mae hon yn rhestr hyblyg a newidiol; gall pethau eraill gael eu gweithredu nad ydynt wedi’u cynnwys yn y rhestr isod, er mwyn ymateb i gyfleoedd newydd.

**1.** Trwy ymgysylltu a chyfathrebu, sicrhau bod amcanion sy'n seiliedig ar wasanaethau yn cyd-fynd â'r uchelgais corfforaethol i ddod yn Ecolegol Gadarnhaol.

**2.** Rhoi'r newid yng nghyfansoddiad y Cyngor i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac ecolegol, gan gynnwys newidiadau i dempledi achosion busnes.

**3.** Ar ôl ymgynghori â staff ac undebau, swydd-ddisgrifiad pob aelod o staff i gynnwys eu cyfrifoldeb mewn perthynas â newid hinsawdd ac ecolegol.

4. Adolygu ein polisi Gwirfoddoli i sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwella'r amgylchedd yn cael eu hybu.

5. Parhau ag ac ehangu'r Polisi Torri Gwair/Ochr Ffyrdd Gwledig Cyngor Sir Ddinbych (Ffyrdd A, B a Diddosbarth) i fwy o ffyrdd.

6. Datblygu Polisi Peillwyr.

7. Cyflwyno polisi newid goleuadau yn yr awyr agored i amddiffyn ystlumod a phryfaid - sbectrwm gwyn cynnes (<2700Kelvin) a lampau sy'n cynnwys tonfeddi brig uwch na 550nm.

8. Adolygu'r Safonau Amgylcheddol ar gyfer cynnal tiroedd ar draws y Cyngor i ganolbwyntio ar blannu rhagor o goed, a llai o waith cynnal tiroedd i gynnal bioamrywiaeth. Osgoi difetha mannau gwyrdd.

9. Datblygu Strategaeth Coed a Choetir.

10. Sicrhau bod y Strategaeth Rheoli Asedau newydd o 2021 ymlaen yn cyd-fynd â'r uchelgais corfforaethol o ddod yn ddi-garbon net a chyflwyno polisi newydd ar gyfer gwaredu a chaffael asedau sy'n cefnogi cadw a/neu brynu tir at ddibenion amsugno carbon a gwelliannau ecolegol.

11. Ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud gwell defnydd o dir ar draws y sir i gyflawni nifer o amcanion e.e. rheoli'r perygl o lifogydd yn naturiol gan roi lle i natur.

12. Sicrhau bod amddiffyn a gwella bioamrywiaeth yn cael ystyriaeth briodol yn nogfennau Caffael y Cyngor - dogfennau Polisi a Strategaeth, templedi comisiynu, gwerthusiadau tendrau.

13. Nodi'r buddion cymunedol yng nghontractau'r Cyngor sy'n gwella'r amgylchedd, gan sicrhau gwelliant ecolegol.

14. Rhoi arweiniad clir i ddatblygwyr o ran ein disgwyliadau iddynt gadw nodweddion ecolegol pwysig ar safleoedd, gan adeiladu eu dyluniadau o'u cwmpas.

**15.** Dechrau defnyddio archwiliad cydymffurfio ecolegol ar gyfer ceisiadau cynllunio i sicrhau bod mesurau lliniaru a digolledu a gwelliannau yn cael eu rhoi ar waith.

**16.** Hybu polisïau cynllunio presennol yn y Cynllun Datblygu Lleol 2006-2021 a Chanllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor sy'n cyfrannu at ddatblygiadau sy'n ecolegol gyfrifol.

**17.** Darparu CDLl newydd sy'n datblygu'r blaenoriaethau lleol ar gyfer cynllunio defnydd tir o fewn y fframwaith polisi cenedlaethol. Bydd y CDLl newydd yn sicrhau bod blaenoriaethau lleol o ran newid hinsawdd a bioamrywiaeth yn cael eu hadlewyrchu mewn polisi cynllunio lleol a phenderfyniadau (e.e. polisi ar oleuadau yn yr awyr agored i amddiffyn ystlumod, yr angen am gynnwys blychau nythu mewn adeiladau).

**18.** Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl i fod yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth ynglŷn â sut mae cynllunio defnydd o dir lleol yn cefnogi blaenoriaethau'r Cyngor ar newid hinsawdd a bioamrywiaeth.

## Camau gweithredu a phrosiectau

Er mwyn dod yn ecolegol gadarnhaol bydd yn ofynnol i'r Cyngor adeiladu ar raglenni gwaith sydd eisoes wedi dechrau o dan Flaenoriaeth yr Amgylchedd yn ein Cynllun Corfforaethol, yn ogystal â chyflawni prosiectau a gwaith newydd.

Cafodd dros 40 o syniadau ar gyfer prosiectau i warchod a gwella bioamrywiaeth eu nodi yn y gweithdai rhithiol yn ystod haf 2020 i ddatblygu'r strategaeth hon a'n nod yw rhoi cynifer â phosib' o'r rhain ar waith dros y 9 mlynedd nesaf, yn ogystal ag unrhyw gamau gweithredu eraill y gallem eu cymryd i ymateb i gyfleoedd newydd.

Mae'r rhestr isod yn cynnig trosolwg ar y camau gweithredu a'r prosiectau sy'n flaenoriaethau a nodwyd hyd yma, y mae'r Cyngor yn gobeithio gallu eu cyflawni er mwyn gwarchod a gwella bioamrywiaeth. Er y gall y Cyngor fod yn fwy penodol ar gyfer Blynyddoedd 1-3, nid yw mor hawdd cynnwys manylion penodol ar gyfer Blynyddoedd 4

ymlaen oherwydd y cyd-destun ansicr a chymhleth mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol weithredu ynddo.

Bydd cyflawni'r holl brosiectau a'r camau gweithredu a nodwyd yn amodol ar sicrhau'r arian angenrheidiol.

**Gweithredu uniongyrchol**

**Blynyddoedd 1 – 3 (2021/22 – 2023/24)**

- Cwblhau'r prosiect PLANNU – plannu 18,000 o goed trefol.
- Cwblhau'r Prosiect Asedau Byw – I gynnal, gwella, gwarchod a chadw 'asedau byw' Sir Ddinbych ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Sefydlu Meithrinfa Goed i'r Sir, yn tyfu 5,000 o goed y flwyddyn ar gyfer prosiectau plannu ar draws y Sir.
- Cwblhau'r Prosiect Rheoli Rhostiroedd ac Atal Tanau Gwyllt.
- Cwblhau'r Prosiect Gwella Bioamrywiaeth – a ariennir gan y grant 'Cymunedau wedi'u cysylltu a Chyfleoedd i Bawb'
- Cyflawni prosiectau gwella ac ehangu ar gyfer rhandiroedd Cyngor Sir Ddinbych.
- Rhoi'r contract cynnal tiroedd ar gyfer ystadau tai ar dendr gyda manylebau sy'n gwella bioamrywiaeth e.e. gadael ardaloedd o laswellt hir ar gyfer bioamrywiaeth.
- Creu porth ar-lein i gofnodi ac adrodd ar fudd cymunedol prosiectau sy'n cynnwys mesurau ynghlwm â'r agenda hon.
- Nodi pa rai o swyddogion y Cyngor sy'n caffael yn rheolaidd er mwyn cyfathrebu â nhw a'u targedu â hyfforddiant ar yr agenda newid hinsawdd a newid ecolegol a'r cyfraniad y gall caffael sy'n amgylcheddol gyfrifol ei wneud.
- Creu casgliad o gwestiynau yn ymwneud yn benodol â charbon ac ecoleg y gellid eu defnyddio fel rhan o'r broses gwerthuso tendrau. Dylai'r rhain gael eu sgorio a'u pwysoli yn briodol fel rhan o'r broses asesu tendrau.

**Blynyddoedd 1 – 9 (2021/22 – 2029/30)**

- Nodi tir ar gyfer plannu coed a chyflwyno blodau gwyllt i diroedd ysgolion.

- Cyflawni'r Prosiect Clefyd Coed Ynn i leihau effaith y clefyd.
- Trosi tir newydd y Cyngor drwy broses aildyfu naturiol a phlannu coed mewn ffordd wedi'i thargedu, gan alluogi'r cyhoedd i gael mynediad atynt lle bo modd.
- Cyflawni gwaith rheoli'r ardal arfordirol ac yn benodol ein hamddiffynfeydd môr naturiol yn Ardal Amddiffyn Arbennig Gronant.
- Ehangu bob blwyddyn ar y cynllun peilot blodau gwyllt (peidio â'u torri yn fwriadol) a gynhaliwyd yn 2020 i ragor o ardaloedd mae'r Cyngor yn berchen arnynt neu'n eu rheoli e.e. mwy o safleoedd cyhoeddus, safleoedd Tai Cymunedol, safleoedd Cartrefi Gofal, ac ati.
- Manteisio ar y cyfle i gynnwys yr agenda hon a'r amcanion wrth ddiweddaru'r Strategaeth Rheoli Perygl o Lifogydd (2014) e.e. ystyried dulliau naturiol o reoli perygl o lifogydd sydd hefyd yn gwella bioamrywiaeth.
- Datblygu cyfres o Ddiwrnodau Amgylcheddol i roi cyfleoedd adeiladu tîm ar gyfer meysydd gwasanaeth, gan hefyd gyflawni gwaith gwella bioamrywiaeth.

**Blynyddoedd 4 – 6 (2024/25 – 2026/27)**

- Cyflawni'r prosiect Tirwedd Darluniadwy i ffensio ardaloedd a hybu coetiroedd i dyfu'n ôl.
- Gosod toeau gwyrdd ar garejis sy'n eiddo i'r Cyngor
- Cyflwyno cynlluniau plannu blodau gwyllt o amgylch safleoedd parcio.

**Defnyddio ein dylanwad ar draws Sir Ddinbych**

**Blynyddoedd 1 – 3 (2021/22 – 2023/24)**

- Ymgysylltu â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned ar wella bioamrywiaeth drwy adolygu a diweddaru Siarter y Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.
- Datblygu'r CDLl newydd i sicrhau bod y blaenoriaethau lleol newydd o ran newid hinsawdd a bioamrywiaeth wedi'u hadlewyrchu mewn polisïau a phenderfyniadau cynllunio lleol.

**Blynyddoedd 1 – 6 (2021/22 – 2026/27)**

- Bydd darparu'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n deillio o'r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cefnogi'r agenda newid hinsawdd a bioamrywiaeth.

**Blynyddoedd 1 – 9 (2021/22 – 2029/30)**

- Cyflwyno rhaglen o fentrau, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, i godi ymwybyddiaeth ymysg trigolion a busnesau yn Sir Ddinbych o'u rôl nhw i wella bioamrywiaeth.
- Gweithio gyda thirfeddianwyr yn Sir Ddinbych, gan gynnwys tenantiaid ffermydd y Cyngor, i'w hannog i reoli a defnyddio'r tir er budd gwelliannau ecolegol a bioamrywiaeth.
- Cynnal dwy Raglen Wirfoddoli bob blwyddyn yn y Gwasanaethau Cefn Gwlad er mwyn i'r cyhoedd gyfrannu at yr agenda.
- Rhoi rhaglen o fentrau a gwaith ymgysylltu ar waith gydag ysgolion ar draws y Sir i rannu dysgu ac adnoddau ar yr agenda hon ac annog newid ymddygiad cadarnhaol.
- Hyrwyddo'r rhaglen Mannau Gwyrdd ar gyfer Iechyd sy'n cael ei chyflawni gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer safleoedd y GIG a mentrau sydd yn Sir Ddinbych.

## Strategaeth ariannol i gynnal y strategaeth a’r cynllun gweithredu

Mae’r sefyllfa ariannol y mae awdurdodau lleol yn ei hwynebu yn dal i fod yn anodd iawn. Mae toriadau cyllido dros gyfnod hir yn golygu bod gennym lawer llai o arian i’w fuddsoddi mewn gwasanaethau erbyn hyn nag yn y gorffennol. Mae pwysau ariannol yn debygol o barhau mewn meysydd fel gofal cymdeithasol ac ar ben hyn mae’r Cyngor yn ymrwymo i gefnogi ein cymunedau a’n busnesau i adfer yn dilyn effaith pandemig Coronafeirws.

Er gwaethaf y sefyllfa anodd sy’n ein hwynebu, mae gan y Cyngor hwn uchelgais clir i wneud ein cyfraniad i fynd i’r afael â’r argyfwng newid hinsawdd ac ecolegol.

Mae’r ddogfen hon yn nodi’r uchelgeisiau i ddod yn ddi-garbon net ac yn ecolegol gadarnhaol a’r gwahanol newidiadau a chamau gweithredu y gallai’r Cyngor eu cyflwyno i gyflawni’r nodau hynny. Bydd angen buddsoddiad cyfalaf ar gyfer rhai o’r rhain, ac arian refeniw ar gyfer eraill, a gall rhai gael eu darparu heb unrhyw gost ychwanegol.

Er mwyn cyflawni’r strategaeth hon dros y 3 blynedd nesaf (2021/22 – 2023/24) credwn y bydd yn costio o leiaf £9 miliwn o bunnoedd i gyflwyno’r prosiectau sydd eu hangen er mwyn cyflawni popeth yr hoffem ei wneud. Rydym yn amau y bydd angen i ni fuddsoddi ffigur tebyg bob 3 blynedd (2024/25 – 2026/27 a 2027/28- 2029/30) hyd at 2030.

Er bod y swm buddsoddi i gyflawni ein nod o fod yn ddi-garbon net ac yn ecolegol gadarnhaol yn swm mawr, ni fydd yn rhaid i’r Cyngor ddarparu’r holl arian hwn. Rydym yn disgwyl y bydd grantiau gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chyrff eraill ar gael er mwyn helpu i ariannu’r gwaith sydd wedi’i gynllunio dros y 9 mlynedd nesaf a disgwylir y byddwn yn achub ar bob cyfle i sicrhau arian grant allanol dros y 9 mlynedd nesaf.

Er mwyn talu am y buddsoddiad cyfalaf a nodwyd, bydd angen i ni ymrwymo cyllideb refeniw ac arian ar gyfer y flaenoriaeth hon. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, bydd hyn yn golygu bod llai o arian ar gael ar gyfer pethau eraill y byddai’r Cyngor yn dymuno eu cyflawni. Mae’n debygol y byddai cyfran o’r buddsoddiad sydd ei angen yn cael ei gynhyrchu drwy fenthyca’n ddarbodus.

Mae gennym fesurau yn eu lle i sicrhau bod yr holl benderfyniadau rydym yn eu gwneud ynglŷn â buddsoddiad cyfalaf yn seiliedig ar achosion busnes cadarn a bod y sefyllfa gyffredinol o ran ariannu dyledion yn cael ei monitro'n ofalus ac yn dal i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Mae ein cynlluniau a'n prosesau cyllideb refeniw yn gadarn iawn a byddant yn ein galluogi i reoli fforddiadwyedd.

Fforddiadwyedd yw'r risg mwyaf i'r Cyngor allu cyflawni ei nodau o fod yn ddi-garbon ac yn ecolegol gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn dal i ymroi i weithredu'r newidiadau a'r camau sydd eu hangen i wneud ein cyfraniad i fynd i'r afael â newid hinsawdd a newid ecolegol ble bynnag a phryd bynnag y gallwn.

## Sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro

Bydd y strategaeth hon yn cael ei chyflawni fel rhan o raglen o weithgarwch, a gydlynir gyda mewnbwn ac ymdrech swyddogion ar draws meysydd gwasanaeth y Cyngor yn gweithio gyda'n partneriaid lle bo'n gymwys.

Y sawl sy'n atebol am gyflawni'r nodau hyn yw Prif Weithredwr y Cyngor fel Noddwr gweithredol y Rhaglen. Rhoddir arweiniad gwleidyddol gan Aelod(au) Arweiniol y Cabinet yn y meysydd â chyfrifoldeb (sef 'Portffolios') sy'n ymdrin â Newid Hinsawdd ac Ecolegol.

Bydd y Cyngor yn cyfrifo cyfanswm y carbon sy'n cael ei allyrru a'i amsugno a chyfoeth y rhywogaethau ar ei diroedd rhwng mis Ebrill a mis Mehefin bob blwyddyn i weld sut mae'r Cyngor wedi perfformio ar y mesuryddion Di-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol yn y flwyddyn ariannol flaenorol (Ebrill – Mawrth). Bydd y Cyngor yn cyflwyno ei ddata ar allyriadau ac amsugno carbon i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, gan ddechrau yn 2021, fel rhan o drefn newydd ar gyfer Adrodd am Nwyon Tŷ Gwydr yn y Sector Cyhoeddus.

Bydd y cynnydd wrth gyflawni'r nodau sydd yn y Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol hon yn cael ei fonitro gan bwyllgor o'r enw Bwrdd y Cynllun Corfforaethol. Mae Bwrdd y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys yr holl Gynghorwyr sy'n aelodau o'r Cabinet a'r holl Benaethiaid Gwasanaeth, Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr.

Bydd mesurau perfformiad allweddol ac uchafbwyntiau'r rhaglen yn cael eu cynnwys yn adroddiad perfformiad y Cynllun Corfforaethol sy'n destun craffu bob chwarter drwy'r Uwch Dîm Rheoli, y Cabinet a Chraffu, ac yn flynyddol gan y Cyngor.

Bydd papur adolygu 12 mus yn mynd ger bron y Cyngor Llawn bob blwyddyn yn nodi prif bwyntiau'r cynnydd sydd wedi'i wneud a'r camau nesaf gan gyfeirio'n ôl at Ddatganiad Argyfwng Hinsawdd y Cyngor.

Gall cynnydd y Cyngor ar gyflawni'r nodau Di-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030 fod yn destun craffu hefyd gan Bwyllgorau Archwilio a Chraffu Mewnol ar adegau priodol dros y 9 mlynedd ac ar ddisgresiwn y Prif Archwilydd Mewnol a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu.

Bydd dogfen y strategaeth yn cael ei hadolygu’n ffurfiol a’i diweddaru pob 3 blynedd hyd at 2030 (2023/24 a 2026/27).

## Sut byddwn yn rhannu'r hyn rydym yn ei ddysgu

Newid hinsawdd ac ecolegol yw'r her fyd-eang sy'n diffinio ein hoes. Bydd gofyn i bawb gyfrannu i ddatrys yr her, gan rannu ymdrechion, gwybodaeth ac adnoddau.

Mae'r Cyngor yn gweithredu mewn ffordd agored a chydweithredol er mwyn cyflawni ei nodau o ddod yn Gyngor Di-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol. Mae'r Cyngor yn edrych ymlaen at ddysgu gan eraill, gan wneud y gorau o gyfleoedd ynghyd â rhannu ein profiad dros y 9 mlynedd hyd at 2030.

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i weithio gyda'n Partneriaid yn y Sector Cyhoeddus drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus[14], gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar ein blaenoriaeth ar y cyd, 'Cydnerthedd Amgylcheddol', gan rannu'r pethau rydym wedi'u dysgu o'n hymdrechion i gyflawni ein nodau i ddod yn Gyngor Di-garbon net ac Ecolegol Gadarnhaol, a gofyn am gyngor gan eraill.

Bydd y Cyngor yn rhannu'r hyn mae'n ei ddysgu gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn Sir Ddinbych. Gan weithio gyda partneriaid Llywodraeth Leol trwy Banel Strategaeth Dadgarboneiddio Llywodraeth Leol, a chyfleoedd eraill, bydd y Cyngor yn ceisio dylanwadu ar Lywodraeth Cymru i symleiddio a chysoni'r darlun polisi a deddfwriaethol presennol, hwyluso effaith fwy trwy weithio ar fwy o raddfa, cefnogi mwy o ymgysylltu a gwaith i newid arferion gyda chymunedau a darparu adnoddau sy'n adlewyrchu maint yr argyfwng hinsawdd sy'n ein hwynebu ni oll.

Bydd y newyddion diweddaraf, cyngor a chyfleoedd i gymryd rhan yn cael eu rhoi ar wefan gorfforaethol y Cyngor a phorth Ymgynghori'r Cyngor. Byddwn yn cyhoeddi e-newyddlen bob 6 mis yn rhoi'r newyddion diweddaraf am waith y Cyngor ar yr agenda hwn a'n nod yw cynnal digwyddiad blynyddol i ymgysylltu â'r cyhoedd. Byddwn yn rhannu'r hyn

[14] Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn bartneriaeth o asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus sy'n cydweithio i wella gwasanaethau lleol. Mae rhestr o bartneriaid BGC cyfredol Conwy a Sir Ddinbych i'w gweld ar wefan y BGC.

rydym yn ei ddysgu gyda busnesau ar draws Sir Ddinbych trwy ein sianeli cyfathrebu â busnesau sy'n cael eu rheoli gan Dîm Datblygiad Economaidd a Busnes y Cyngor.

Gall y cyhoedd gofrestru ar gyfer is-grŵp newid hinsawdd ac ecolegol y Cyngor, sef Y Panel, a chymryd rhan mewn trafodaeth ar-lein ar themâu newid hinsawdd ac ecolegol.